Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

20 Mawrth 2018

Annwyl Mick

**Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ei ystyriaeth a'i adroddiad ar y darpariaethau is-ddeddfwriaeth o fewn y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Yn eich adroddiad, gwnaethoch un argymhelliad:

> *"Rydym yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 78(1)."*

Credaf y bydd y pŵer i wneud darpariaeth yn ôl yr angen o dan adran 78 yn ddigonol i sicrhau gweithrediad effeithiol y Bil/Deddf. Felly, derbyniaf y gellid dileu'r pŵer i wneud darpariaeth sy'n "hwylus".

Fodd bynnag, o gofio bod hyn yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru, byddaf yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o drafodaethau cyffredinol ar y Bil.

Os bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, edrychaf ymlaen at weithio gydag aelodau'r Pwyllgor ar y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*